# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 07.11.01

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno'n Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw cyfanswm costau'r gwaith ar y safle, gan gynnwys pethau megis wynebau dros dro ar ffyrdd, a chan gynnwys cost yr oedi mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ13871)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl datganiad o ddiddordeb a gafwyd oddi wrth y sector preifat mewn perthynas â chwblhau'r gwaith ar adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad. (WAQ13872)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd cyfanswm costau'r gwaith o godi ffensys terfyn o amgylch safle adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad. (WAQ13873)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw hyd unrhyw gontractau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â'r ffens derfyn o amgylch safle adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad. (WAQ13874)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gontractau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â'r ffens derfyn o amgylch safle adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad. (WAQ13875)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw cyfanswm y costau sydd ynghlwm wrth gynnal a chadw'r ffens derfyn o amgylch safle adeilad newydd arfaethedig y Cynulliad hyd at ddyddiad etholiad nesaf y Cynulliad. (WAQ13876)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau a ddisgwylir gyda Phartneriaeth Richard Rogers mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ13877)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Rod Richards (Gogledd Cymru);** A yw ei pholisi ar ddarparu ffisiotherapi ar gyfer dioddefwyr strôc yn wahanol i'r polisi a geir yn Lloegr; ac os yw'n wahanol, ym mha ffordd. (WAQ13993)

**Rod Richards (Gogledd Cymru);** Beth yw ei pholisi ar ddarparu ffisiotherapi i gleifion sydd

wedi dioddef strôc. (WAQ13992)

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar sut y mae'n bwriadu pwyso a mesur a yw Cyswllt Busnes ar ei newydd wedd yn llwyddiant ai peidio.(WAQ13897)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa bryd y bydd y Gweinidog yn medru manylu ar sut y mae'n bwriadu pwyso a mesur a yw Cyswllt Busnes ar ei newydd wedd yn llwyddiant ai peidio. (WAQ13909)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad manwl ar y ganolfan ragoriaeth arfaethedig ar gyfer Gweithgynhyrchu. (WAQ13896)